

RHAGLEN DIWYGIO'R GWASANAETHAU DEINTYDDOL CYFFREDINOL (GDC)

Digwyddiadau Ymgysylltu | Rhithwir | 24 a 25 Ionawr 2023

Adroddiad Gwerthuso ac Adborth o Ddigwyddiadau

Crynodeb o'r Digwyddiad

Cafodd y digwyddiad hwn ei gynnal ddwywaith dros ddwy noson olynol, er mwyn galluogi i fwy o bobl ei fynychu. Roedd rhan gyntaf y digwyddiad yn cynnwys cyfuniad o gyflwyniadau byw, a oedd yn canolbwyntio ar egwyddorion diwygio, diweddariadau ar y rhaglen, datblygiad clwstr, dyletswydd gonestrwydd ac arloesedd y gweithlu. Yna, symudodd y cyfranogwyr i ystafelloedd trafod rhithwir i gael trafodaethau wedi'u hwyluso ar ddatblygiad clwstr carlam, y gweithlu ac ansawdd, cyn dychwelyd i'r brif ystafell ar gyfer adborth a chrynodeb o'r trafodaethau.

Nodau'r Digwyddiad

A hithau bron yn flwyddyn ers i Raglen Diwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (GDC) ailddechrau, diben y digwyddiad hwn oedd rhoi diweddariad i'r cyfranogwyr o'r data a'r adborth sy'n llywio cynnydd y rhaglen a'r datblygiadau arloesol presennol.

Cynlluniwyd y digwyddiad ymgysylltu hwn ar Raglen Diwygio'r GDC i ganolbwyntio ar yr amcanion canlynol:

- **Rhannu** adborth o brofiadau clinigwyr o raglen diwygio gwasanaethau deintyddol Cymru.
- **Amlinellu** cyfeiriad y rhaglen ddiwygio yn y dyfodol a darparu diweddariad ar yr hyn a ddysgwyd hyd yma.
- Rhoi **diweddariad** ar newidiadau pwysig a fydd yn cynnwys ymarfer deintyddol mewn gofal sylfaenol.

Yn ogystal â darparu cyfle i gael trafodaeth wedi'i hwyluso yn y sesiynau trafod, roedd Slido ar gael drwy gydol y digwyddiad er mwyn i'r cyfranogwyr allu cyflwyno cwestiynau ar gyfer y sesiwn Holi ac Ateb.

Agenda'r Digwyddiad:

- **Croeso a Chyflwyniad i'r Digwyddiad** gan Anup Karki, Ymgynghorydd Iechyd Deintyddol Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru / Warren Tolley, Dirprwy Brif Swyddog Deintyddol, Llywodraeth Cymru
- Pedwar cyflwyniad:
 - **Egwyddorion y Rhaglen Ddiwygio a diweddariad arnynt**
Cyflwynwyd gan Andrew Dickenson, Prif Swyddog Deintyddol, Llywodraeth Cymru
 - **Pa gyfleoedd sy'n bodoli i ddylanwadu ar Ddatblygiad Clystrau?**
Cyflwynwyd gan Adam Porter, Cyfarwyddwr Cymunedol GDC, BIP Caerdydd a'r Fro
 - **Gweithio o fewn y Ddyletswydd Gonestrwydd**
Cyflwynwyd gan Vicki Jones, Cyfarwyddwr Clinigol Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol, BIPAB a Chadeirydd Pwyllgor Deintyddol Cymru
 - **Cefnogi Arloesedd yn y Gweithlu**
Cyflwyniad gan Kirstie Moons, Deon Deintyddol Ôl-raddedig, AaGIC
- Tair ystafell drafod: **sesiynau rhyngweithio wedi'u hwyluso**
 - **Ystafell 1** - canolbwyntio ar ddatblygiad clwstr carlam. Wedi'i hwyluso gan Richard Jones, Cyfarwyddwr Clinigol Deintyddol ar gyfer Gwella Ansawdd a Datblygu Gwasanaethau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a DPA, BIPCTM ac Adam Porter, Cyfarwyddwr Gweithredol GDC, BIP Caerdydd a'r Fro
 - **Ystafell 2** – ffocws ar y gweithlu. Wedi'i hwyluso gan Kirstie Moons, Deon Deintyddol Ôl-raddedig, AaGIC a Kathryn Marshall, Pennaeth Datblygu'r Gweithlu Deintyddol, AaGIC
 - **Ystafell 3** – ffocws ar ansawdd. Wedi'i hwyluso gan Adrian Thorp, Prif Gynghorydd Ymarfer Deintyddol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chadeirydd Grŵp Ansawdd a Diogelwch Cymru Gyfan a Russell Gidney, Cadeirydd Pwyllgor Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol Cymru a WS4 – Ymgysylltiad Proffesiynol.
- Amlygwyd pwyntiau allweddol o bob ystafell drafod gan yr hwyluswyr yn y sesiwn olaf yn y brif ystafell cyn cyflwyno crynodeb a dirwyn y digwyddiad i ben.

Canfyddiadau'r Gwerthusiad

Cyflawni'r diben/nodau a'r effeithiau ehangach (Effeithiolrwydd ac Effaith)


Mynychwyd y digwyddiad gan dros 200 o bobl, dros y ddwy noson.

Cwblhawyd 39 o ffurflenni adborth gan bobl yn y rolau canlynol (mae gan rai o'r bobl hyn fwy nag un rôl):


- Cyfarwyddwr Clinigol
- Cyfarwyddwr Deintyddol
- Nyrs Ddeintyddol
- Addysgwr Nyrsio Deintyddol
- Cynghorydd Ymarfer Deintyddol
- Deintydd: Gwasanaethau Deintyddol Cymru
- Deintydd: Deiliad Contract Deintyddol y GIG
- Deintydd: Cyflawnydd/Cyswllt
- Addysgwr Deintyddol
- Rheolwr Datblygu Gofal Sylfaenol
- Rheolwr Ymarfer

Roedd yr atebion a ddarparwyd ar gyfer 4 cwestiwn ar **gynnwys y digwyddiad fel a ganlyn**:


Fe wnaeth y digwyddiad fy helpu i ddeall Datblygiad Clwstrw Carlam a'r newidiadau ehangach i Ofal Sylfaenol a pha mor berthnasol dynt i wasanaethau deintyddol yng Nghymru.




Fe wnaeth y digwyddiad fy helpu i wella fy nealltwriaeth o nodau ac amcanion strategol y broses o ddiwygio'r system ddeintyddol yng Nghymru a'r cysylltiad rhwng y newidiadau i'r contract deintyddol newydd a'r amcanion strategol hyn.



Fe wnaeth y digwyddiad hwn fy helpu i ddeall beth mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn ei olygu i wasanaethau deintyddol yng Nghymru.




Fe wnaeth y digwyddiad hwn fy helpu i ddeall yr heriau sy'n wynebu'r gweithlu deintyddol a'r angen am atebion arloesol.




Roedd yr atebion a ddarparwyd ar gyfer y 5 cwestiwn ar **ganlyniadau o ran ymwybyddiaeth** fel a ganlyn:


Rwyf yn ymwybodol o gyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer deintyddiaeth yng Nghymru.




Rwyf wedi llwyddo i rannu fy mhrofiad o raglen diwygio'r gwasanaethau deintyddol yng Nghymru




Rwy'n deall cyfeiriad y rhaglen ddiwygio ar gyfer y dyfodol



Rwy'n deall y newidiadau sy'n ymwneud â phractisau deintyddol gofal sylfaenol



Rwy'n gwybod gyda phwy y dylwn gysylltu yn fy mwrdd iechyd, neu rywun o Raglen Diwygio'r GDC, os oes gennyf unrhyw gwestiwn neu adborth ar y rhaglen



Nodweddion cadarnhaol cyffredinol y digwyddiad

Roedd adborth gan cyfranogwyr ar rannau **mwyaf defnyddiol** y digwyddiad yn cynnwys y themâu canlynol:

Cyflwyniadau

- Y cyflwyniadau ar y dechrau oedd y rhai mwyaf defnyddiol
- Cafodd y diweddariad ar ddyletswydd gonestrwydd ei gyflwyno'n dda ac roedd yn ddefnyddiol
- Diweddariad y gweithlu
- Deall cefndir y gwaith mae AaGIC wedi'i wneud i gynllunio'r gweithlu a'r anawsterau a brofwyd hyd yma ac i'r dyfodol
- Dyletswydd gweithredu gonestrwydd mewn prosesau ymarferol

Sesiynau Trafod

- Grŵp trafod y Gweithlu
- Esboniad o'r ddyletswydd gonestrwydd yn yr ystafell drafod
- Gallu sgwrsio am faterion pwysig mewn grwpiau bach
- Trafodaethau'r gweithlu
- Trafod y Gweithlu
- Roedd y sesiwn drafod ar ddyletswydd gonestrwydd yn ddefnyddiol
- Dealltwriaeth o'r materion perfformiad ansawdd

Cyfle i leisio barn a chlywed gan gydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill

- Y drafodaeth agored mewn fforymau
- Clywed adborth yn yr ystafelloedd trafod
- Mae deintyddion yn nodweddiadol ynysig, felly roedd yn fuddiol clywed barn a theimladau gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol eraill
- Cyfle i leisio barn yn yr ystafelloedd trafod
- Roedd yn braf clywed trafodaethau yn yr ystafelloedd trafod lle'r oedd cydweithwyr yn mynegi rhwystredigaethau tebyg
- Gallu clywed barn pobl eraill
- Sylweddoli bod llawer o weithwyr proffesiynol gofal deintyddol eraill yn profi'r un materion a phryderon ac felly roedd gobaith y bydd yn rhaid gwneud newidiadau i achub y GIG
- Clywed sylwadau a gweledigaeth deintyddion eraill

Cyffredinol

- Roedd yn ddiddorol a defnyddiol cael trafodaeth gyflym ar y syniadau diweddaraf.

Meysydd i'w gwella

Roedd y sylwadau a wnaed yn yr adborth ar y rhan **lleiaf defnyddiol** o'r digwyddiad yn pwysleisio'r meysydd canlynol i'w gwella:

Yr agenda gyffredinol

Roedd yr adborth gan rai o'r cyfranogwyr yn nodi nad oeddent o'r farn bod cynnwys clystyrau ar agenda'r digwyddiad yn ddefnyddiol. Soniodd llawer am bwysigrwydd clystyrau, ond roeddent o'r farn nad hwn oedd yr amser cywir i godi'r pwnc hwn gyda'r proffesiwn deintyddol, am eu bod yn cael anhawster gyda'r metrigau presennol a'r gofynion amser cysylltiedig a'r straen a brofwyd.

Er i rai o'r cyfranogwyr ddweud bod y digwyddiad yn ei gyfanrwydd wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn derbyn diweddariad ar y rhaglen ddiwygio gyfan, mynegodd eraill eu siom nad oedd y digwyddiad penodol hwn wedi canolbwyntio ar ddiwygiadau diwedd y flwyddyn a diwygio contractau.

Roedd llawer o'r adborth a roddwyd yn datgan nad oedd hyd y digwyddiad wedi bod yn ddigonol i ganiatáu amser trafod digonol.

Cyflwyniadau

Roedd cryn bryder bod rhai o'r cyflwyniadau wedi'u rhuthro ac na roddwyd amser digonol i rannu cynnwys defnyddiol.

Sesiynau trafod

Roedd rhai o'r cyfranogwyr o'r farn bod y sesiynau trafod wedi trafod y pynciau anghywir a'u bod yn teimlo nad oeddent yn cael eu clywed. Ar y pwynt hwn byddai wedi bod yn well ganddynt gael cyfle i drafod diwygiadau diwedd y flwyddyn a diwygio contractau ymhellach. Dywedodd cyfranogwyr eraill bod y sesiynau trafod yn y digwyddiad hwn wedi bod yn ddefnyddiol, ond byddent wedi gwerthfawrogi cael mwy o amser trafod. Nodwyd bod rhai o'r cyfranogwyr o'r farn bod y sesiynau trafod yn y digwyddiad hwn wedi trafod pynciau a drafodwyd eisoes mewn digwyddiadau blaenorol.

Materion technegol

Bu oedi cyn mynd i'r ystafelloedd trafod oherwydd yr amser a gymerwyd i symud pobl i'r ystafelloedd cywir. Bu oedi hefyd ar ddechrau sesiwn olaf y brif ystafell, wrth aros i'r trafodaethau yn yr ystafelloedd trafod ddod i ben. Achosodd hyn rwystredigaeth i rai o'r cyfranogwyr.

Profodd rhai o'r cyfranogwyr broblemau gydag ansawdd y sain hefyd yn ystod cyflwyniadau.

Sylwadau ychwanegol ar y digwyddiad

Rhai o'r pryderon a fynegwyd yn yr adborth oedd nad oedd y digwyddiadau ymgysylltu hyd yma wedi arwain at newidiadau i ddiwygiadau'r contract, yn unol â chais y cyfranogwyr. O ganlyniad, roedd y bobl hyn yn teimlo nad oeddent wedi'u clywed Dywedodd cyfranogwyr eraill fod yr un pynciau yn cael eu trafod yn yr ystafelloedd trafod ac y byddai wedi bod yn well ganddynt gael cyfle i glywed mwy a thrafod rhannau eraill o Raglen Ddiwygio'r GDC yn y digwyddiadau hyn.

Sylwadau eraill a ddarparwyd ar y digwyddiad:

- Dylid cynnal y cyfarfodydd yn ystod oriau gwaith yn hytrach nac oriau'r teulu gyda'r nos, a lleihau'r targedau triniaeth i adlewyrchu hyn
- Byddai'n ddefnyddiol cael mwy o drafodaethau ar siapio diwygiadau i'r contract yn y dyfodol
- Mae'n fuddiol cael y digwyddiadau hyn, lle trosglwyddir gwybodaeth i ddeintyddion a gallant glywed safbwyntiau a phryderon ei gilydd ond rwy'n teimlo fy mod bob amser yn gadael gyda mwy o gwestiynau nac atebion.
- Ddim yn gynhyrchiol a dim budd i gleifion na deintyddion
- Roedd y digwyddiad yn dda iawn ac roedd yn werth ei fynychu. Roedd y sesiynau trafod yn dda ac wedi'u cadeirio'n dda
- Gwella'r cyfathrebu yn ystod y cyfarfod
- Hwyluswyr cadarnhaol yn yr ystafelloedd trafod.
- Nid wyf yn credu bod unrhyw un yn gwrandao ar ddeintyddion.
- Diddorol iawn clywed barn pawb
- Roedd yn ddefnyddiol ar y cyfan
- Roedd yn ddiddorol a defnyddiol cael cyfle i drafod y syniadau diweddaraf
- Roedd yn ddefnyddiol iawn i gyd
- Cynhwysiant (neu ddiwyddiad ar wahân) i sicrhau bod gofal eilaidd a Gwasanaeth Deintyddol Cymru wedi'u hysbysu a'u bod yn cyfranogi yn y broses? Mae'n ymddangos bod eithrio yn groes i'r cysyniad i ddiwygio deintyddiaeth yn gyffredinol.

Adnoddau'r Digwyddiad

Mae holl adnoddau'r digwyddiad ar gael drwy'r dolenni canlynol:

All event resources can be found via the following link:

<https://gofalsylfaenolun.gig.cymru/pynciau1/iechyd-deintyddol-cyhoeddus/rhaglen-diwygior-gwasanaethau-deintyddol-cyffredinol-gdc-yng-nghymru/digwyddiadau-rhaglen-diwygior-gwasanaethau-deintyddol-cyffredinol/>

Diolch yn fawr i bawb a ddarparodd adborth.

Bydd yr holl sylwadau ac awgrymiadau a ddarparwyd mewn cysylltiad ag agenda a chynnwys y digwyddiad yn cael eu hystyried wrth gynllunio digwyddiadau yn y dyfodol.

Bydd sylwadau/adborth ychwanegol a gyflwynwyd mewn perthynas â Rhaglen Ddiwygio'r GDC yn gyffredinol (drwy Slido / ffurflen adborth y digwyddiad / sesiynau trafod yn ystod y digwyddiad) yn cael eu hystyried hefyd ar gyfer gwaith ar y rhaglen yn y dyfodol.

Mae Cwestiynau Cyffredin yn cael eu cynhyrchu i ddarparu eglurhad pellach ar gwestiynau ychwanegol yn ystod/yn dilyn y digwyddiad hwn a chânt eu rhannu cyn hir, yn ogystal â chael eu postio ar wefan Gofal Sylfaenol Un.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach neu ymholiadau, cysylltwch â dentalpublichealth@wales.nhs.uk